# Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023

**2023 dsc 3**

**RHAN 3**

ADEILADAU O DDIDDORDEB PENSAERNÏOL NEU HANESYDDOL ARBENNIG

**PENNOD 1**

RHESTRU ADEILADAU O DDIDDORDEB ARBENNIG

PROSPECTIVE

*Rhestr o adeiladau*

**76 Dyletswydd i gynnal a chyhoeddi rhestr o adeiladau**

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru gynnal rhestr o adeiladau y mae rhaid iddi gynnwys pob adeilad yng Nghymru y maent yn ystyried ei fod o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig, a rhaid iddynt gyhoeddi'r rhestr gyfredol.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio'r rhestr drwy—

(a) ychwanegu adeilad,

(b) dileu adeilad, neu

(c) diwygio'r cofnod ar gyfer adeilad.

(3) Wrth ystyried a ddylai adeilad gael ei gynnwys yn y rhestr, caiff Gweinidogion Cymru ystyried nid yn unig yr adeilad ei hun ond hefyd—

(a) unrhyw ffordd y mae'r tu allan i'r adeilad yn cyfrannu at ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol unrhyw grŵp o adeiladau y mae'n ffurfio rhan ohono, a

*Statws Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) croes bennawd yn cynnwys darpariaethau sy'n rhagolygol.*
*Newidiadau i ddeddfwriaeth: Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, Croes Bennawd: Rhestr o adeiladau. (See end of Document for details)*

(b) dymunoldeb diogelu unrhyw nodwedd artiffisial o'r adeilad ar sail ei diddordeb pensaernïol neu hanesyddol.

(4) Yn is-adran (3)(b) ystyr "nodwedd artiffisial" yw unrhyw nodwedd o'r adeilad sy'n cynnwys strwythur neu wrthrych artiffisial—
(a) sy'n sownd wrth yr adeilad, neu
(b) sy'n ffurfio rhan o'r tir ac sydd o fewn cwrtil yr adeilad.

(5) Yn y Ddeddf hon ystyr "adeilad rhestredig" yw adeilad sydd wedi ei gynnwys yn y rhestr a gynhelir o dan yr adran hon, ac mae'n cynnwys—
(a) unrhyw strwythur neu unrhyw wrthrych artiffisial sy'n sownd wrth yr adeilad ac sy'n atodol iddo;
(b) unrhyw strwythur neu unrhyw wrthrych artiffisial arall—
(i) sy'n ffurfio rhan o'r tir ac wedi gwneud hynny ers cyn 1 Gorffennaf 1948, a
(ii) a oedd o fewn cwrtil yr adeilad, ac yn atodol iddo, ar y dyddiad y cynhwyswyd yr adeilad yn y rhestr am y tro cyntaf, neu ar 1 Ionawr 1969, pa un bynnag oedd y diweddaraf.

(6) Yn y Rhan hon—
(a) ystyr "rhestru" adeilad yw diwygio'r rhestr drwy ychwanegu'r adeilad;
(b) ystyr "dadrestru" adeilad yw diwygio'r rhestr drwy ddileu'r adeilad.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I1** A. 76 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 212(2)**

**77 Hysbysiad o restru neu ddadrestru adeilad**

(1) Cyn gynted â phosibl ar ôl i Weinidogion Cymru restru neu ddadrestru adeilad, rhaid iddynt gyflwyno hysbysiad eu bod wedi gwneud hynny—
(a) i bob perchennog a phob meddiannydd ar yr adeilad, a
(b) i bob awdurdod lleol perthnasol y mae'r adeilad yn ei ardal.

(2) Pan fo Gweinidogion Cymru wedi rhestru adeilad—
(a) rhaid i'r hysbysiad bennu'r dyddiad y gwnaethant hynny, a
(b) rhaid iddynt gynnwys gyda'r hysbysiad gopi o'r cofnod ar gyfer yr adeilad yn y rhestr a gynhelir o dan adran 76.

(3) Mae copi o gofnod a gyflwynir o dan yr adran hon yn bridiant tir lleol, ac at ddibenion Deddf Pridiannau Tir Lleol 1975 (p. 76) y cyngor sir neu'r cyngor bwrdeistref sirol y cyflwynir y copi iddo yw'r awdurdod tarddiadol o ran y pridiant.

(4) Rhaid i awdurdod lleol perthnasol gadw'r canlynol ar gael i'r cyhoedd edrych arnynt—
(a) copïau o gofnodion yn y rhestr sydd wedi eu cyflwyno iddo o dan yr adran hon, a
(b) copïau o unrhyw rannau o'r rhestr a adneuwyd gydag ef o dan adran 2(1) o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 (p. 9) neu ddarpariaeth gyfatebol mewn unrhyw Ddeddf gynharach, i'r graddau y mae'r rhannau hynny yn parhau i fod yn gyfredol.

(5) Rhaid i'r copïau fod ar gael i edrych arnynt—

***Statws** Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) croes bennawd yn cynnwys darpariaethau sy'n rhagolygol.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, Croes Bennawd: Rhestr o adeiladau. (See end of Document for details)*

(a) yn rhad ac am ddim,
(b) ar adegau rhesymol, ac
(c) mewn man cyfleus.

(6) Yn yr adran hon ystyr "awdurdod lleol perthnasol" yw—
(a) cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol;
(b) awdurdod Parc Cenedlaethol;
(c) bwrdd cydgynllunio.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I2** A. 77 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 212(2)**

**Statws**
Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) croes bennawd yn cynnwys darpariaethau sy'n rhagolygol.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, Croes Bennawd: Rhestr o adeiladau.